# Adroddiad Blynyddol gan Gynghorydd 2019/20

Hwn yw'r adroddiad gan y Cynghorydd isod ar ei weithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid i unrhyw bwrpas arall. Safbwyntiau'r Cynghorydd unigol yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt, o angenrheidrwydd, yn adlewyrchu barn Cyngor Sir Ynys Môn.

**Cynghorydd:** Carwyn Jones
**Parti:** Plaid Cymru **Ward:** Seiriol

## 1 - Rôl a Chyfrifoldebau

| **Rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020, eisteddais ar y prif bwyllgorau / is-bwyllgorau canlynol:** | **Crynodeb o Bresenoldeb** |
|---|---|
| Cyngor Sir Ynys Môn | Cofnod Presenoldeb |
| Is-Bwyllgor Indemniadau | |
| Pwyllgor Adfywio | |
| Pwyllgor Gwaith | |
| Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd | |
| Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn | |
| Nid yw'r rhestr uchod yn cynnwys pob cyfarfod sy'n ymwneud â gwaith y Cyngor Sir.<br><br>Gall presenoldeb amrywio oherwydd natur gwaith a chyfrifoldebau aelodau - fel deilydd portffolio, cadeirydd pwyllgor neu fel cynrychiolydd y Cyngor ar gyrff allanol, er enghraifft. | |

Rwy'n aelod o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn. Rwyf hefyd yn aelod o Bwyllgor Buddsoddi a Chontractau'r Ymddiriedolaeth – mae manylion am fy mhresenoldeb yn y cyfarfodydd hyn ar gael hefyd ar y ddolen uchod.

Rwy'n cynrychioli'r Cyngor ar y cyrff allanol canlynol:

| Corff allanol | Crynodeb o rôl a chyfraniad |
|---|---|
| - Llywodraethwr / Ysgol David Hughes | - Aelod o YDH ac eistedd ar y panel cyllid a phersonél |
| - Llywodraethwr / Ysgol Gynradd Llandegfan | - Cadeirydd y Corff Llywodraethwyr, cydweithio â'r Pennaeth a'r Llywodraethwyr eraill er mwyn cefnogi'r ysgol i ddarparu'r addysg orau |

| | |
|---|---|
| - Partneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru | - Trafod y sector yng Ngogledd Cymru a ffyrdd o gydweithio |

**2 - Gweithgareddau yn yr Etholaeth**

Byddaf yn mynychu cyfarfodydd Cyngor Cymuned yn Llanddona, Cwm Cadnant a Llangoed ac yn mynychu ac yn adrodd yn ôl i Gyngor Tref Biwmares.

Byddaf hefyd yn mynychu ac yn cefnogi nifer o bwyllgorau a mentrau yn lleol drwy gydol y flwyddyn ac yn ymrwymo cymaint o amser ac ymdrech i helpu â phosibl.

Byddaf yn helpu pobl yn ddyddiol gydag amrywiaeth eang o wahanol faterion.

**3 - Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Mae ymateb i’r coronafeirws wedi bod yn her sylweddol a dyma’r prif ffocws dros y cyfnod diweddar, rydw i’n hynod o falch o fod wedi gallu cyfrannu at gael rhifyn arbennig 12 tudalen o’r cylchlythyr Pâl (Puffin) allan i bawb yn ward Seiriol. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth allweddol yn cynnwys Cynllun Tro Da Seiriol ac yn bwysicaf oll fe gyrhaeddodd pob congl a’r bobl fwyaf bregus yn ein cymunedau yn ystod y cyfnod anodd hwn.

**4 - Dysgu a Datblygu**

Mae gwybodaeth am y mentrau dysgu a datblygu rwyf wedi’u mynychu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ar gael yma (gwybodaeth wedi’i ddarparu gan Gyngor Sir Ynys Môn): Hyfforddiant

Gan fy mod hefyd yn cael fy nghyflogi del Darlithydd Busnes rydw i’n diweddaru fy ngwybodaeth yn barhaus o ran deddfwriaeth bresennol a newydd.

Rydw i hefyd wedi mynychu tair sesiwn friffio gyda Chyngor Ynys Môn sy’n darparu gwybodaeth allweddol ac yn hysbysu am wahanol agweddau o fusnes y Cyngor a gwasanaethau allweddol.

**5 - Gweithgareddau a Materion Eraill**

Ceir rhagor o wybodaeth amdanaf yma: Cynghorydd Carwyn Jones

| | |
|---|---|
| **Cynghorydd Carwyn Jones** | **Gorffennaf 2020** |